CYNGOR CAERDYDD
CARDIFF COUNCIL

CYFARFOD CABINET: 14 HYDREF 2021

CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSCA) CAERDYDD 2022-2032

ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

EITEM AGENDA:5

Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft a amgaeir yn Atodiad 1 a chymeradwyo'r broses ymgynghori ffurfiol.

Cefndir

2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017, sy'n nodi gweledigaeth o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3. Erbyn 2050, y nod yw y bydd 40 y cant o blant (ym mhob grŵp blwyddyn) yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. O blith y rhai sydd mewn addysg cyfrwng Saesneg, y dybiaeth yw y bydd hanner y rhai sy'n gadael yr ysgol yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r strategaeth yn rhagdybio, yn genedlaethol, y bydd 70 y cant o bobl ifanc 15 oed yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050, sy'n cynnwys 40 y cant yn dod o ysgolion Cymraeg a 30 y cant yn dod o ysgolion cyfrwng Saesneg.

4. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol baratoi Cynllun deng mlynedd, y cyntaf i ddod i rym o 1 Medi 2022, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Mae'r penderfyniad i symud i ffwrdd o gynllun 3 blynedd i gwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd ar gyfer y cynlluniau sydd i ddod yn caniatáu golwg strategol tymor hwy ar sut i gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg yng Nghaerdydd ar adeg o newid sylweddol yn y byd addysg.

Twf y Gymraeg ac Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd

5. Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae nifer siaradwyr y Gymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Mae Caerdydd nawr yn y pedwerydd safle o ran y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg, y tu ôl i Sir Gâr, Gwynedd ac Ynys Môn yn unig.

6. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith rhagorol a wnaed ar draws y ddinas - yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid - i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dangos effaith mentrau partneriaeth fel y rhai a ddatblygwyd gan Weithgor Caerdydd Ddwyieithog.

7. Yr hyn sy'n amlwg hefyd yw pwysigrwydd canolog addysg Gymraeg ar gyfer twf y Gymraeg. Mae data'r Cyfrifiad yn dweud wrthym, ymhlith unigolion 5-15 oed, fod canran y disgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu o 7.5% yn 1981 i 26.7% yn 2011. Mae data derbyn i ysgolion mwy diweddar hefyd yn dangos bod nifer y plant sydd wedi cofrestru mewn addysg Gymraeg wedi cynyddu 16% (1,752 o ddisgyblion) rhwng 2012 a 2018.

8. Mae'r ymrwymiad i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda, y buddsoddiad o £280m i ddarparu rhaglen o ansawdd uchel mewn ysgolion a'r gwelliant parhaus o ran cyrhaeddiad addysgol i gyd wedi bod yn sail i'r twf hwn. Wrth i Gaerdydd edrych i'r 10 mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn cadw ei ymrwymiad i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda tra'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol o addysg yng Nghaerdydd.

9. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg Gymraeg, y bydd y nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg yn cynyddu ac, drwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg, y bydd pob plentyn yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg.

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg

<u>Egwyddorion</u>

10. Wrth i'r Cyngor weithio i gyflawni ei ymrwymiadau o fewn y CSCA, bydd yn gwneud hynny yn unol â chyfres o egwyddorion allweddol:

- Bydd egwyddorion "cymdogaeth 15 munud" yn cael eu cymhwyso i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

- Ceisio sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth newydd ar safleoedd CDLl fel darpariaeth Gymraeg.

- Gellir addysgu pob plentyn yn y ddinas yn yr iaith o'u dewis gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.

- Bydd rhieni'n cael cymorth i drosglwyddo eu plentyn, neu blant, i addysg Gymraeg ar unrhyw oedran, gyda throchi o ansawdd uchel yn cael ei gynnig i gefnogi ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn.

- Bydd dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r cyfnod cynradd yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i barhau â darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

- Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo a chynyddu'n rhagweithiol ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg.

- Bydd pob dysgwr yn cael cymorth i fod yn hyderus mewn o leiaf dwy iaith.

- Bydd holl ysgolion Caerdydd yn cynyddu faint o Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir yn eu hysgolion, yn gyson â'r cwricwlwm newydd i Gymru

- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

- Bydd dysgwyr sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

- Er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg byddwn yn ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg ar 10% dros y nifer a ragwelir.

<u>Deilliannau</u>

11. I gefnogi'r broses gynllunio, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gynlluniau gael eu trefnu o amgylch saith deilliant sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac sy'n gyson â meysydd polisi Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth Genedlaethol.

12. O dan bob un o'r saith deilliant ceir gwybodaeth am rai o'n cyflawniadau diweddaraf ynghyd â'r sefyllfa bresennol ac yn olaf y camau penodol a gymerwn ar gyfer pob un dros oes y cynllun hwn wedi'i rannu'n ddwy ran o bum mlynedd yr un.

13. Felly, bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r deilliannau canlynol:

    - Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

    - Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

    - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.

    - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

    - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Targedau Cenedlaethol a Lleol

14. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn y plant Blwyddyn 1 a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

15. Y targed cenedlaethol yw:

Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2032, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

16. Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei darged yn unol â'r ystod a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol cyffredinol. Rhaid i'r targed gael ei gefnogi gan ddatganiad yn nodi sut y byddai Awdurdod Lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun. Dyma'r targed deng mlynedd cyffredinol ar gyfer CSCA 2022 - 2032.

17. Mae Awdurdodau Lleol wedi'u grwpio i gategorïau gwahanol sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau (ac yn cydnabod elfennau tebyg) rhwng y 22 awdurdod. Roedd y ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr a addysgir yn Gymraeg ym mhob ardal, y modelau darpariaeth addysg Gymraeg a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol, a natur ieithyddol ardal.

18. Y targed a osodwyd ar gyfer Caerdydd gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau twf fod rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn derbyn addysg Gymraeg erbyn diwedd y cyfnod o ddeng mlynedd (ceir esboniad manwl o'r fethodoleg a weithredir ar gyfer pennu'r targed hwn, ochr yn ochr ag amcanestyniadau Caerdydd, yn Atodiad 2).

Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol ein Sector Addysg

19. Mae Caerdydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg drwy ddarparu lleoedd ychwanegol ar fynd i addysg gynradd ac ar drosglwyddo i addysg uwchradd ynghyd â sefydlu'r ddarpariaeth drochi hynod lwyddiannus sydd wedi cefnogi a chynyddu nifer y trosglwyddiadau yn ystod blwyddyn.

20. Ers 2010, mae Caerdydd wedi cynyddu'r capasiti cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar fynd i'r sector cynradd oddeutu 6 dosbarth mynediad (DM) ac mae nifer y disgyblion derbyn wedi cynyddu tua 0.25% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng Medi 2015 a Medi 2020.

21. Yn yr un cyfnod, ar lefel uwchradd mae'r awdurdod wedi sefydlu trydedd ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ynghyd ag ychwanegu capasiti yn un o'r ysgolion oedd yma'n barod gan arwain at gynnydd cyffredinol o 7DM wrth fynd i flwyddyn 7.

22. Mae twf addysg Gymraeg yn llwyddiant y dylid ei ddathlu'n briodol, ond mae'n amlwg bod mwy i'w wneud. Er y bu cynnydd o ran maint y ddarpariaeth o ansawdd uchel a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg, mae heriau'n parhau o hyd ynghlwm â thwf parhaus, yn enwedig o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau geni a'r angen i ddiwallu anghenion ein cymunedau amrywiol.

23. Wrth symud ymlaen byddwn yn sicrhau, fel dinas amrywiol, bod pawb yn deall manteision addysg Gymraeg a'r manteision cadarnhaol o gofleidio'r Gymraeg. Bydd hyn yn golygu ymgysylltu â chymunedau nad ydynt yn draddodiadol efallai wedi ystyried addysg Gymraeg i'w plant a datblygu dulliau wedi'u teilwra ar gyfer pob cymuned.

24. Yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n derbyn darpariaeth Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar ac ar ddechrau addysg statudol, mae angen hefyd ystyried ymhellach rôl bosibl y ddarpariaeth Trochi Cymraeg fel rhan o strategaeth ragweithiol ar gyfer twf yn y dyfodol.

25. Mae hyn yn rhan o ddull cydgysylltiedig o sicrhau bod teuluoedd yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi pe baent yn dewis darpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn gofyn am rwydwaith cymorth pwrpasol sy'n rhan o'r cynnig ysgol ffurfiol ac nid yw'r pandemig diweddar ond wedi pwysleisio'r angen am gymorth caffael iaith dwys o'r math hwn. Yn ychwanegol at hyn, mae angen pwysleisio argaeledd lleoedd arbenigol yn y sector Cymraeg ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a fydd yn eu galluogi i weld cynnydd yn unol â'u potensial.

26. Yn gyson ag ymrwymiadau'r Cyngor fel Dinas sy'n Dda i Blant, bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd ar nifer o faterion pwysig. Mae deall y rhesymau pam mae teuluoedd wedi dewis addysg Gymraeg, neu efallai pam nad ydynt wedi dewis Cymraeg i'w plant, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae angen deall hefyd pam y byddai pobl ifanc a allai fod wedi derbyn addysg statudol Gymraeg yn dewis peidio â dilyn addysg bellach neu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae angen deall yn well pam y gallai diffyg hyder fod ar rai pobl ifanc i ddefnyddio unrhyw Gymraeg yn eu gyrfaoedd fel oedolion a'r hyn y credant y gallem ni ei wneud i newid hyn.

27. Roeddem hefyd yn cydnabod nad yw manteision clywed, siarad a mwynhau dysgu yn Gymraeg wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n dewis addysg

Gymraeg. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gosod disgwyliadau uchel o ran sut y bydd y cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o ran darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer caffael iaith drwy ddysgu a defnyddio mwy o Gymraeg yn ein hysgolion Saesneg. Mae blaenoriaethu datblygiad ein model iaith ddeuol newydd i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus yn flaenoriaeth os ydym am sefydlu hyn fel templed ar gyfer ysgolion newydd eraill yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth hon felly'n ailddatgan ymrwymiad Cyngor Caerdydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas a gwella faint o Gymraeg a ddefnyddir ym mhob un o'n hysgolion a'n darpariaethau addysgol.

Ystyriaethau Cyflawni Allweddol

28. Rhaid cyflwyno'r CSCA yng nghyd-destun ystyriaethau ehangach, sy'n rhaid eu cydnabod yn llawn er mwyn cyflawni dyheadau'r Cyngor.

- Demograffeg: Newidiodd nifer a chanran y plant sy'n mynd i addysg gynradd Gymraeg yn fawr rhwng 2009/10 a 2016/17. Yn gyson â'r boblogaeth gyffredinol, roedd nifer y plant a oedd yn mynd i addysg Gymraeg yn cynyddu. Amcanestynir y bydd y nifer sy'n cael eu derbyn i addysg gynradd ledled y ddinas rhwng Medi 2021 a Medi 2023 yn lleihau'n sylweddol o ganlyniad i ostyngiad pellach yn y gyfradd enedigaethau a newidiadau i batrymau mudo, y ceir tystiolaeth ar ei gyfer mewn data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a setiau data cofrestru meddygon teulu diweddaraf y GIG. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yn gyson ym mhob rhan o'r ddinas.

  Nid yw data cyfraddau geni ar gyfer plant sy'n mynd i addysg gynradd o fis Medi 2025, hyd at ddiwedd cyfnod y CSCA yn 2032, yn wybyddus eto. Mae'r data cyfraddau geni a phoblogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos patrwm cylchol yng Nghaerdydd, ac yn genedlaethol. Yng nghyd-destun gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd yn narpariaeth bresennol y Cyngor, mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd y ddarpariaeth bresennol mewn ysgolion ac sydd wedi ei chynllunio eisoes yn cynnig lefel gymharol uchel o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd Cymraeg ledled y ddinas i gefnogi twf cynaliadwy yng nghamau cynnar cyfnod y cynllun.

- Newid Canfyddiadau: Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ond hefyd i sicrhau y gellir addysgu pob plentyn yn y ddinas yn eu dewis iaith. Bydd hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog i bob rhiant yn hanfodol. Bydd hyn yn gofyn am ddull cydgysylltiedig o sicrhau bod teuluoedd yn deall manteision siarad mwy nag un iaith, yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi os byddant yn dewis darpariaeth Gymraeg ac yn gallu cael mynediad at rwydwaith cymorth pwrpasol sy'n rhan o'r cynnig ysgol ffurfiol.

- Y Gweithlu: Er mwyn cyflawni'r targedau uchelgeisiol a osodwyd yn genedlaethol, ac er mwyn llwyddo i gyflawni ein dyheadau o ran addysg Gymraeg, mae angen ar fyrder i gynyddu nifer yr athrawon

sy’n siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hon yn her genedlaethol na ellir ei gorbwysleisio ac mae'n un a fydd yn gofyn am ymateb cydgysylltiedig gan bob lefel o Lywodraeth yng Nghymru. Felly, mae maint yr her yn mynnu lefelau digynsail o gydweithio ac ymyrraeth i sicrhau nad yw ansawdd uchel addysg Gymraeg yn cael ei wanhau a bod modd gwella faint o Gymraeg a addysgir ar draws y system addysg.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

29. Mae’r Cyngor yn parhau i weithio’n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae’r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i sbarduno cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy niferoedd y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a’r rhai sy’n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

30. Cyn cyhoeddi canllawiau ar y CSCA, sefydlodd y Fforwm Addysg Gymraeg nifer o weithgorau i ystyried ffactorau sy'n cefnogi twf addysg Gymraeg, gan gynnwys Hyrwyddo a Marchnata, Cymorth i Rieni a Theuluoedd, a Chynllunio Gyrfaoedd a'r Gweithlu.

31. Amrywiaeth o gwbl ddwyieithog sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cefnogodd y rhain fewnbwn pellach gan y Fforwm Addysg Gymraeg a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bwriad y sesiynau oedd cryfhau ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp estynedig ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yng Nghaerdydd, a sicrhau perchnogaeth a mewnbwn ehangach rhanddeiliaid a fyddai'n gweithio'n uniongyrchol i gyflawni'r camau y cytunwyd arnynt yn y CSCA terfynol.

32. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys Aelodau Etholedig Cyngor Caerdydd gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg; cynrychiolwyr cyrff llywodraethu ysgolion; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro; Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Caerdydd; Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Swyddogion y Cyngor o Addewid Caerdydd, Cyfathrebu, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol, y Gwasanaeth Cynhwysiant a Chludiant Ysgolion. Adeiladodd y sesiynau hyn ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y misoedd diwethaf drwy weithio gydag aelodau’r Fforwm Addysg Gymraeg a defnyddio eu profiad a'u gwybodaeth o'r sector yng Nghaerdydd a thu hwnt.

Ymgynghoriad

33. Mae Rheoliad 9 Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn nodi'r cyrff y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â hwy ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft cyn ei gyflwyno i Weinidogion. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y CSCA drafft gydag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys Aelodau etholedig,

ysgolion, rhieni, disgyblion, y sefydliadau partner perthnasol a phartïon â diddordeb.

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yn rhaid cynnal ymgynghoriad ar y cynllun arfaethedig am ddim llai nag 8 wythnos. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar-lein i raddau helaeth gyda thudalen we i roi cartref i'r cynllun drafft ac arolwg ar-lein i gasglu barn partïon â diddordeb. Bydd y model hwn yn ceisio sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael yn rhwydd mewn un lle a bod gan breswylwyr un lle i gyfeirio ato er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ganddynt er mwyn gallu cynnig ymateb ystyriol.

35. Ochr yn ochr â'r arolwg ar-lein, bydd swyddogion yn monitro lefelau ymateb ac yn ceisio ennyn diddordeb grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli o fewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu uchelgais y Cyngor i symud i ffwrdd o'r *status quo* a sicrhau bod y Gymraeg yn iaith i holl ddinasyddion y Cyngor.

36. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei hyrwyddo'n helaeth drwy gyfrwng tîm cyfathrebu'r Cyngor gyda negeseuon cyfryngau cymdeithasol aml ac wedi'u targedu i annog ymgysylltu. Bydd dolenni i dudalen we'r cynllun a'r arolwg hefyd yn cael eu dosbarthu i randdeiliaid statudol a enwir yn y canllawiau gan gynnwys yr holl aelodau etholedig, ysgolion, sefydliadau sy'n aelodau o'r Fforwm, Estyn a Phanel Ieuenctid Caerdydd.

37. Yn dilyn y dyddiad cau, caiff ymatebion eu crynhoi a'u defnyddio i lywio'r drafft terfynol a gaiff ei gynnig i'r Cabinet ym mis Ionawr 2022 gyda gofyniad i'r CSCA gael ei gytuno a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2022 fan bellaf.

Ymgynghoriad Aelodau Lleol (lle bo hynny'n briodol)

38. Mae'r CSCA yn ddogfen bolisi strategol ac ymgynghorir ag aelodau etholedig fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Ystyriaethau Craffu

39. Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi derbyn cyflwyniad ar y cynnwys allweddol sydd i fod yn sail i'r Cynllun Drafft ar 21 Medi 2021 ac mae eu sylwadau wedi'u cynnwys yn y drafft presennol lle bo hynny'n briodol. Gwnaed y cais i dderbyn y CSCA llawn adeg yr ymgynghoriad i lywio ei ddatblygiad ymhellach cyn ei gyhoeddi'n derfynol.

Rhesymau dros yr Argymhellion

40. Cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi ac ymgynghori ar Gynllun Strategol y Cymraeg mewn Addysg 2022-2032.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

41. Y rheswm dros yr adroddiad hwn yw nodi cynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft a'r ymgynghoriad gofynnol. Ar hyn o bryd ni fyddai hyn yn arwain at ymrwymiad o wariant cyfalaf ac ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

42. Bydd unrhyw waith ychwanegol i ysgolion presennol neu ysgolion newydd neu wariant a wneir o fewn y gyfarwyddiaeth Addysg o ganlyniad i'r CSCA yn gofyn am gynnal gwerthusiad ariannol llawn er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch fforddiadwyedd o fewn y rhaglen cyfalaf addysg neu dalu amdano o ddyraniadau'r adnoddau presennol.

Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)

Dyletswydd Cydraddoldeb

43. Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cyfle cyfartal sector gyhoeddus o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru). Mae'r dyletswyddau yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i (1) gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, (2) hybu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail y nodweddion a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw: oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred.

44. Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (WG42004 Cymru Fwy Cyfartal Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 (llyw.cymru) a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

45. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff cyhoeddus â'r nod o geisio cyflawni 7 nod llesiant cenedlaethol Cymru – Cymru sydd yn ffyniannus, yn wydn, iachach, mwy cyfartal, a chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.

46. Wrth arfer ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, mae'r Cyngor wedi gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio i wneud y gorau o'i gyfraniad i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Nodir yr amcanion llesiant yng Nghynllun Corfforaethol Caerdydd ar gyfer 2021-24. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant. Golyga hyn y dylai'r sawl sy'n penderfynu ystyried sut bydd y penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at

gyflawni'r amcanion llesiant a'u bod wedi eu bodloni bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

47. Mae'r ddyletswydd llesiant hefyd yn gofyn bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r egwyddor yn mynnu bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Yn syml, golyga hyn fod gofyn i'r rhai sy'n penderfynu yn y Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor:

- Edrych i'r tymor hir
- Canolbwyntio ar atal trwy ddeall gwreiddiau problemau
- Cyflawni ymagwedd integredig i gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol
- Gweithio mewn cydweithrediad gydag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy
- Cynnwys pobl o bob rhan o'r gymuned o ran y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

48. Rhaid i'r person sy'n gwneud penderfyniad fod yn hyderus bod y penderfyniad arfaethedig yn unol â'r egwyddorion uchod; a rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i'r Canllawiau Statudol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru, y mae modd eu gweld ar y ddolen isod: https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy

Cyffredinol

49. Dylai'r sawl sy'n penderfynu fod yn fodlon bod y penderfyniad yn unol â'r polisi ariannol a chyllidebol.

50. Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn ystyriol hefyd, wrth benderfynu, o rwymedigaethau ehangach y Cyngor dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

51. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y cynhelir ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Rhaid i unrhyw ymgynghoriad fod yn addas a theg. Bydd cynnal ymgynghoriad yn arwain at ddisgwyliadau teg y caiff canlyniad yr ymgynghoriad eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Goblygiadau AD

52. Er mwyn cyflawni'r strategaeth 10 mlynedd hon, bydd angen gweithlu digon medrus sy'n gallu dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y ddinas.

53. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn parhau i gefnogi Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu cyfrwng Cymraeg i fynd i'r afael ag unrhyw heriau recriwtio y gallant ddod ar eu traws, yn benodol o ran cynllunio ac agor ysgolion newydd ac ehangu'r ddarpariaeth mewn eraill. Bydd cyngor hefyd yn

parhau i fod ar gael ynghylch cynllunio'r gweithlu a strwythurau staffio ysgol gyfan.

54. Wrth i'r Cyngor barhau i gynyddu darpariaeth y Gymraeg ar draws ein hysgolion, bydd Gwasanaethau Pobl AD yn parhau i weithio gyda'r gyfarwyddiaeth Addysg a phartneriaid i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu presennol ac yn y dyfodol i ddiwallu anghenion ysgolion yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r amrywiaeth gynyddol o fewn y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.

Goblygiadau Eiddo

55. Bydd Ystadau Strategol yn cefnogi cydweithwyr Addysg ar unrhyw ofynion tir ac eiddo i gefnogi'r Cynllun hwn.

Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

Cyd-destun Polisi Trafnidiaeth

56. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gyflawni amrywiaeth o brosiectau trafnidiaeth trawsnewidiol er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, llygredd aer ac effeithiau andwyol dibyniaeth ar geir ar iechyd pobl.

57. Targed y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yw sicrhau rhaniad 50:50 rhwng siwrneiau ceir a rhai ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2026.

58. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn gosod targed newid moddol llawer mwy uchelgeisiol ac mae'n ceisio sicrhau fod dros 60% o deithiau gwaith dyddiol i gael eu gwneud drwy ddulliau teithio cynaliadwy erbyn 2025 gyda'r gyfran hon yn cynyddu i tua 75% erbyn 2030.

59. Er mwyn cyrraedd y targed hwn bydd angen newidiadau i'r ffordd y mae plant yn teithio i'r ysgol.

60. Mae teithio i'r ysgol yn creu pwysau sylweddol ar rwydwaith trafnidiaeth Caerdydd. Mae 30% o'r holl deithiau ceir yn ystod oriau brig y bore yn deithiau i'r ysgol. Mae tua 40,000 o deithiau car i'r ysgol bob dydd yng Nghaerdydd.

61. Mae llawer o deithiau i'r ysgol yn fyr iawn: mae 75% o siwrneiau i addysg yng Nghaerdydd o fewn 3km i gartrefi pobl. Gallai mwy o'r teithiau hyn gael eu gwneud drwy ddulliau llesol os yw pob ysgol wedi'i chysylltu'n dda â'u dalgylchoedd drwy lwybrau teithio llesol diogel a chyfleus.

62. Mae'r Papur gwyn Trafnidiaeth yn cynnwys yr ymrwymiad i "Ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol a llwybrau cerdded a beicio hygyrch ar gyfer pob ysgol drwy weithio gyda phlant, athrawon, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo cerdded, sgwtera a beicio nôl a blaen i'r ysgol;

Pellteroedd teithio

63. Nodir bod y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn hirach nag i ysgolion Saesneg sydd yn nes at ei gilydd ac sydd â dalgylchoedd llai.

64. Gallai cyflawni'r targedau CSCA o weld disgyblion a addysgir mewn ysgolion Cymraeg yn cynyddu o 18% yn 2021 i 25-29% yn 2032 olygu y gallai fod angen mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a gweld rhai ysgolion Saesneg yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg. Gyda chynnydd yn nosbarthiad ysgolion Cymraeg, gallai'r pellter teithio cyfartalog i ysgolion cyfrwng Cymraeg leihau, gyda chynnydd cyfatebol yn y pellter teithio cyfartalog i ysgolion cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, gall teithio cyfartalog cyffredinol i bellteroedd ysgol gynyddu oherwydd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion Saesneg.

<u>Teithio gan Ddysgwyr</u>

65. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'r CSCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi sut y bydd yn hyrwyddo mynediad i addysg o ran cludiant i ddysgwyr. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried effaith polisïau cludiant ysgol a allai gael effaith andwyol ar gyfraddau trosglwyddo mewn ysgolion Cymraeg.

66. Mae Cyngor Caerdydd yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion Cymraeg sydd o oed ysgol statudol (5 i 16) sy'n byw 2 filltir neu fwy yn yr oed cynradd, neu 3 milltir neu fwy yn yr oed uwchradd, (wedi'i fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf sydd ar gael) o'u hysgol dalgylch briodol agosaf ar gyfer eu cyfeiriad cartref.

67. Mae polisi cludiant presennol Cyngor Caerdydd o'r cartref i'r ysgol yn nodi bod 4 categori/math o ran yr ysgol briodol agosaf. Sef:-
    i. Yr Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg agosaf
    ii. Yr Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg agosaf
    iii. Ysgol agosaf yr Eglwys yng Nghymru
    iv. Yr Ysgol Gatholig agosaf

68. Yn unol â pholisi presennol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n byw mwy na'r pellteroedd cerdded statudol o'u hysgol Gymraeg ddalgylch briodol agosaf, heb ystyried a oes ysgol Saesneg neu ysgol Ffydd agosach.

69. Pan agorir ysgolion newydd a bod dalgylchoedd yn cael eu dynodi ar gyfer pob math/categori o ysgol, mae Caerdydd yn cymhwyso'r un egwyddor i bob ysgol gan fod y dalgylch newydd yn berthnasol i bob disgybl sy'n dechrau mewn ysgol o'r mis Medi y mae'r newid yn dod i rym. Mae'r dalgylch newydd hefyd yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ym mhob blwyddyn ddilynol wedi hynny.

70. Gyda'r gostyngiad cyfartalog mewn pellter teithio i'r ysgol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg, disgwylid y ceid gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant i'w hysgol Gymraeg agosaf. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd rhywfaint o gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n

mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gymwys i gael cludiant am ddim.

71. Bydd angen ystyried goblygiadau Teithio Dysgwyr unrhyw gynigion ar gyfer ysgolion Cymraeg newydd a throsi ysgolion Saesneg presennol yn rhai cyfrwng Cymraeg yn ofalus ar lefel cynllunio strategol y ddarpariaeth a thrwy bob cam o ddatblygu prosiectau unigol (adeiladau newydd a newidiadau i ysgolion presennol). Bydd hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau cost unrhyw gynnydd yn yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ac effaith polisïau cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor ar fynediad i addysg Gymraeg.

<u>Cynlluniau Teithio Llesol i'r Ysgol</u>

72. Mae'r Cyngor am gynyddu nifer y disgyblion sy'n teithio i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg drwy gerdded a beicio yn hytrach na chael eu gyrru. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

73. Bydd unrhyw ddatblygiadau ysgol newydd neu ehangu safleoedd ysgol presennol sy'n deillio o'r CSCA yn rhoi cyfle i sicrhau bod seilwaith teithio llesol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n briodol fel elfen hanfodol ac annatod o ddyluniad y cynllun.

74. Yn allweddol i hyn fydd sicrhau fod dyluniad a gosodiad yr adeiladau a'r trefniadau mynediad i'r safle yn rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a dulliau teithio cynaliadwy. Elfennau allweddol eraill fydd lleoliad y pwyntiau mynediad mewn safleoedd a fydd yn ystyried aliniad y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau ger llaw ac a fydd yn anelu at gadw pellteroedd cerdded a beicio mor fyr â phosib ac osgoi gwyriadau diangen i bobl yn teithio ar droed ac ar feic. Mae datblygu'r safle newydd arfaethedig yn rhoi cyfle i ddylunio mynedfeydd mewn lleoliadau mwy priodol a chyfleus sy'n gweddu'r hyn y dymunir ei weld.

75. Bydd angen i bob ysgol Gymraeg newydd neu ysgol sydd wedi newid/ehangu i fod yn gyfrwng Cymraeg gael Cynllun Teithio Llesol ar waith o ddechrau eu gweithrediad. Dylai Cynllun Teithio Llesol ar gyfer safle ysgol newydd neu ysgol sydd wedi newid i fod yn Gymraeg gael ei lywio gan Asesiad Trafnidiaeth (ar gyfer adeiladu o'r newydd neu ehangu safle sy'n bodoli eisoes) ac unrhyw Gynllun Teithio Llesol sy'n bod eisoes a'i ddatblygu gyda chyfranogiad llawn y disgyblion a'r staff a chynnwys disgyblion a staff ym mhoblogaethau'r ysgolion sy'n bwydo, lle bo'n bosibl. Dylai'r Cynllun Teithio Llesol ar gyfer ysgol uwchradd fod yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer yr ysgolion clwstwr lleol. Bydd hyn yn helpu i annog teithio llesol ar draws pob grŵp oedran a sicrhau y bydd pob disgybl sy'n mynd i'r ysgol newydd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gefnogi datblygu Cynllun Teithio Llesol a'i roi ar waith. Gellir cynnig cymorth arall drwy Dîm

Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor sy'n darparu Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol i ysgolion yng Nghaerdydd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

76. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad y byddai'r CSCA drafft yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg ac na fyddai'n effeithio'n negyddol ar grŵp penodol mewn cymdeithas.

77. Bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad.

ARGYMHELLION

Argymhellir bod y Cabinet yn:

(i) Cytuno i ymgynghori ar gynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft yn ystod hydref 2021.

(ii) Noder y bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i gyfarfod yn y dyfodol i ofyn am awdurdodiad i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i ystyried.

UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	Melanie Godfrey Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes
	8 Hydref 2021

Atodir yr atodiadau canlynol:

Atodiad 1: CSCA Caerdydd 2022-2032 - Drafft Ymgynghori
Atodiad 2: Nodyn Technegol yn nodi amcanestyniadau disgyblion a Methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu targedau

Rhoddwyd ystyriaeth i'r papurau cefndir canlynol:

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Ionawr 2021.
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb